**<u>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI</u>**
**<u>Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio Arbrofol Rhif 2) 2021</u>**

**Dirymu a Darparu Arbrofol o ran Mannau Aros, Mannau Llwytho, Mannau Parcio i Bobl Anabl a Mannau Parcio ar y Stryd**
**Heol Hanbury, Bargod; Y Stryd Fawr Uchaf, Bargod; Y Stryd Fawr, Coed Duon; Stryd Clive, Caerffili; Victoria Terrace, Trecelyn; Tredegar Street, Rhisga; a Commercial Street, Rhisga**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (‘y Cyngor’), wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (‘Deddf 1984’) a Deddf Rheoli Traffig 2004 (‘Deddf 2004’) a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

## 1 ENWI A CHYCHWYN

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar <DATE> <MONTH> 2021 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio Arbrofol Rhif 2) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2021.

## 2 EFFAITH Y GORCHYMYN

Diwygir Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019 drwy:

a) Dirymu Cynlluniau O49, P49, P101, T59, AB60, AH86 ac AI88 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn a mewnosod Cynlluniau O49A, P49A, P101A, T59A, AB60A, AH86A ac AI88A i'r Gorchymyn hwn.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Bydd y gorchymyn arbrofol am gyfnod o ddeunaw mis ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Cyngor yn ystyried a fydd darpariaeth y gorchymyn hwn yn parhau i fod mewn grym am gyfnod amhenodol. Gall y Pennaeth Isadeiledd, gan weithredu ar ran y Cyngor, derfynu'r arbrawf, neu ei addasu, os bydd angen gwneud hynny am resymau diogelwch, yn ei farn ef, o fewn y chwe mis cyntaf.

Rhoddwyd dan sêl gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

ar ____ __________ 2021

Gosodwyd sêl gyffredin
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
yma ym mhresenoldeb

Swyddog Awdurdodedig